# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**25 Tachwedd 2010**

**SC(3)-23-10 p2**

## Ymchwiliad I Fioamrywiaeth - Papur tystiolaeth a baratowyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Pwyllgor Cynaliadwyedd Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Cefndir

Y mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad i Fioamrywiaeth yng Nghymru. Yn ei lythyr dyddiedig 22 Gorffennaf, galwodd y Pwyllgor am dystiolaeth ysgrifenedig ynghylch nifer o gwestiynau er mwyn edrych paham y bu i Gymru fethu â chyrraedd ei thargedau am 2010 i atal colli bioamrywiaeth. Mae'r papur hwn yn darparu ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i gwestiynau'r Pwyllgor. Y mae hefyd yn amlinellu'r polisi, a'r ystod o gamau sy'n anelu at amddiffyn a gwella bioamrywiaeth, ac a gefnogir gan Lywodraeth y Cynulliad.

Dylid darllen y datganiad hwn ochr yn ochr â Datganiad y Cabinet a wnaed gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar 12fed Ionawr 2010.  Er hwylustod, darperir y datganiad hwnnw fel atodiad i'r dystiolaeth hon.

### Pa fecanweithiau cyflwyno oedd yn eu lle i gyflawni targedau 2010?

Mae Strategaeth Amgylcheddol Cymru a'r Cynllun Gweithredu'n nodi gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr amgylchedd dros yr 20 mlynedd nesaf, sef amgylchedd Cymreig sy'n lân, yn iach, yn fiolegol amrywiol ac yn cael ei werthfawrogi gan bobl Cymru.  Mae'n canolbwyntio ar y themâu amgylcheddol allweddol, sef: mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd; y defnydd o adnoddau cynaliadwy; bioamrywiaeth nodedig; tirluniau a morluniau; yr amgylchedd lleol a pheryglon amgylcheddol.

Strwythurwyd ail Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer 2008 – 2011 i nodi cynnydd arfaethedig ar waith sy'n flaenoriaeth i gyflawni'r Strategaeth Amgylcheddol. Yr oedd y Cynllun yn canolbwyntio ar nifer bychan o feysydd gweithredu allweddol ac yn adeiladu ar y gwaith sylweddol a wnaed i fwrw ymlaen â'r Strategaeth Amgylcheddol ers Mai 2006.  Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn adrodd yn flynyddol yn erbyn targedau'r Strategaeth Amgylcheddol a lansiwyd yr adroddiad diweddaraf ar15fed Tachwedd 2010.

Mae pedwar pwrpas allweddol i'r Cynllun:

Llywio'r camau gweithredu i gyflawni amgylchedd gwell;

Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl randdeiliaid a phartneriaid;

Annog ymgysylltu â phobl, fel y gall pawb ddeall a chael budd o'n hamgylchedd naturiol; a

Chyflwyno cynnydd o ran cyflawni gwelliannau amgylcheddol, drwyddi draw.

Mae'r  Strategaeth Amgylcheddol a lansiwyd gennym yn 2006 yn ymestyn dros 20 mlynedd, gyda'r rhaglen yn rhedeg hyd 2026.  Mae'n ymateb i'r materion hyn gan ddefnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'n ymdrin â hwy dros y tymor hir fel ein bod yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Am resymau tebyg, mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol yn rhedeg dros gyfnod o dair blynedd o 2008 i 2011.  Mae hyn yn caniatáu i ni a'n partneriaid ganolbwyntio ar weithgareddau y tu hwnt i gyfnod ymrwymiad o flwyddyn.

Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn pontio cyfnod dwy Lywodraeth yn y Cynulliad, gan sicrhau parhad i'r camau gweithredu. Y mae'n fwy tebygol y gellir cyflawni os bydd rhaglen waith yn bodoli sy'n rhedeg i mewn i gyfnod gweinyddiaeth newydd. Strategaeth Amgylcheddol Cymru a'r Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig â hi yw'r prif fecanwaith ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth yng Nghymru.

Rheolir cadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau drwy Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (UKBAP).  Yng Nghymru, cydlynir gweithredu UKBAP gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (WBP).  Bydd Grwp Llywio'r Bartneriaeth yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn, gan ddwyn ynghyd y mudiadau sy'n ymwneud â chadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru.  Mae'r Bartneriaeth yn darparu cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion bioamrywiaeth ac yn cydlynu camau gweithredu ar fioamrywiaeth ar lefel Cymru sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Amgylcheddol a'r UKBAP. Y mae hefyd yn darparu swyddogaeth  arweiniol ar gyfer Partneriaethau Lleol y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth yng Nghymru.

Caiff holl gamau'r Strategaeth Amgylcheddol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth eu cofnodi ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS).  Mae partneriaethau lleol y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth wedi defnyddio BARS ers 2004.  Adroddodd Partneriaid Arweiniol, gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), ar BARS ar gyfer adroddiad BAP y DU 2005 ac maent wrthi ar hyn o bryd yn gwella ac yn cynyddu eu defnydd o BARS ledled Cymru. Ers 2007 mae grantiau Cronfa Her y Rhywogaethau CCGC yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n derbyn grantiau ddefnyddio BARS; mae hyn yn cael ei gyflwyno hefyd ym mhob un o grantiau gweithredu bioamrywiaeth eraill CCGC a'r Cynulliad ac y mae'n unol â dull gweithredu cyrff eraill sy'n dyfarnu grantiau yn y DU.

Mae Canolfannau Cofnodion Lleol (LRC) yn rhan o rwydwaith ehangach o fudiadau sy'n gweithio dan ymbarél y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol. Ym mis Medi 2007 Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gael ei gwasanaethu'n llawn ganddynt.

Mae Adran 40(1) Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i warchod bioamrywiaeth. Mae awdurdodau lleol yn grwp targed allweddol ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd hon, ond y mae hefyd yn effeithio ar ystod eang o gyrff eraill gan gynnwys awdurdodau tân, yr heddlu, iechyd a chludiant ayb.

Mae Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Defra, Natural England, a Chymdeithas Llywodraeth Leol, Cyswllt Amgylchedd Cymru ac eraill i ddatblygu canllawiau i gefnogi awdurdodau cyhoeddus o ran cydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Ers 2006 anogwyd pob awdurdod lleol a pharc cenedlaethol i benodi 'hyrwyddwr bioamrywiaeth' ar lefel cabinet. Bellach mae swyddog o'r fath gan bob awdurdod. Datblygwyd rhestrau gwirio a deunyddiau ar gyfer gweithdai hefyd gan WBP, ac y maent yn adnodd defnyddiol ar gyfer mudiadau cyhoeddus sy'n ymwneud â gweithgareddau sydd â photensial i effeithio ar fioamrywiaeth.

Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol yn cyflogi un neu fwy o arbenigwyr ecolegol i ddarparu cyngor i adrannau cynllunio, priffyrdd ac adrannau eraill ac y mae gan lawer ohonynt gytundebau lefel gwasanaeth yn eu lle gyda'r Ganolfan Cofnodion Lleol. Mae'r swyddogaethau hyn yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i wneud penderfyniadau priodol, gan leihau'r risg o her gyfreithiol ac effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd ehangach.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 5 'Cadwraeth Natur', a gyhoeddwyd ym Medi 2009, yn cefnogi'r gwaith hwn drwy ddarparu cyngor i awdurdodau lleol ynghylch sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at amddiffyn a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi lwyddiannus TAN 5 yn gynharach eleni (wedi'i hariannu ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a CCGC) i sicrhau bod Awdurdodau'n gwerthfawrogi eu rôl a'u cyfrifoldebau allweddol o ran cyflawni polisi cadwraeth natur Llywodraeth y Cynulliad.

Bu dynodi'r rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig y DU yn gerbyd allweddol ar gyfer rhoi sylw i golli cynefinoedd a rhywogaethau. Yng Nghymru, yr ardaloedd gwarchodedig hyn yw asgwrn cefn gwaith cadwraeth natur ar dir ac yn y môr.

Canfuwyd bod llawer o'r rhwydwaith o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol o ran cynefinoedd a rhywogaethau. Derbyniodd y 'pwyntiau poeth' hyn o ran bioamrywiaeth warchodaeth dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a'r Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ayb)1994. Yr oedd y naill set o ddeddfwriaeth a'r llall yn cynnwys cyfundrefnau trwyddedu o ran rhywogaethau a gweithdrefnau cydsynio yng nghyswllt cynefinoedd. Diwygiwyd a chryfhawyd darpariaethau a chyflwyniad y corff hwn o ddeddfwriaeth yn gynyddol dros y blynyddoedd. Bydd y gwaith ar `"Cymru Fyw"` yn ystyried rôl a chyfeiriad dynodiadau yn y dyfodol ochr yn ochr â mesurau rheoleiddio a rheoli eraill.

Mae gan y cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy Tir Gofal, a gyflwynwyd yn 1999 gyfanswm o 417,725 hectar dan reolaeth gadarnhaol, ac o'u plith mae 198,480 hectar wedi'u nodi fel cynefin y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, dan reolaeth ar gyfer adferiad neu greu. Yn ogystal, mae 435km o wrychoedd dan reolaeth gadarnhaol. Y mae'n werth nodi hefyd bod yr arwynebedd tir sy'n cael ei ffermio'n organig wedi cynyddu 10%.

Mae lleihau'r defnydd o blaladdwyr cemegol a gwrtaith anorganig ynghyd â rheolaeth sensitif ar gynefinoedd a chadwraeth ffermio cymysg yn darparu buddion niferus. Mae rheoli gwrychoedd, ffiniau caeau ac ardaloedd lle na thyfir cnydau wedi arwain at fwy o amrywiaeth o flodau ac wedi darparu mwy o gynefin cysgodi ar gyfer ystod eang o rywogaethau. Yn benodol, y mae'r mesurau hyn wedi cynorthwyo i gynnal cynefin ar gyfer adar gwyllt a phryfed ac wedi cynnal amrywiaeth o flodau cynhenid allweddol.

Yn gyfan gwbl, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi dros £35 miliwn ar gyfer camau'n ymwneud â bioamrywiaeth dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn 2009/10. Yn ogystal, mae CCGC yn gwario oddeutu £2.1 miliwn y flwyddyn ar gytundebau rheoli gyda pherchnogion tir a rheolwyr, i gynorthwyo i warchod a gwella ardaloedd pwysig o gynefin. Mae cyllid pellach hefyd ar gael er budd bioamrywiaeth dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru; ac mae buddsoddi a wneir dan raglenni eraill megis Cynlluniau Rheoli Basn Afon a chronfa Cydgyfeiriant yr UE, gan gynnwys Rhaglen Cymunedau a Natur CCGC yn gwneud cyfraniadau pwysig.

Bydd Glas Tir – y cynllun rheoli tir newydd ar gyfer Cymru yn adeiladu ar yr etifeddiaeth hon, yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau ecosystem, yn bennaf drwy'r cylchoedd dwr a charbon.

### Pam y bu i'r rhain fethu â chyflawni?

Yn rhyngwladol, ac yma yng Nghymru, bu llawer iawn o gynnydd cadarnhaol o ran gwarchod a gwella bioamrywiaeth. Er gwaethaf y gwaith hwn, ni chyflawnwyd y targed i atal colli bioamrywiaeth. Yn hytrach na bod yn rhywbeth y gellir ei briodoli'n glir i ddiffyg ymdrech neu adnoddau, gallai'r sefyllfa gyfredol fod wedi codi oherwydd nad yw'r cyfundrefnau presennol yn edrych ar y system a'r amgylchedd yn eu cyfanrwydd, ond yn hytrach yn canolbwyntio ar faes bychan o gadwraeth.

Hyd yn ddiweddar, yr oedd rhannau o'r amgylchedd yn cael eu hystyried ar wahân yn hytrach a chael eu rheoli fel systemau integredig a chyd-ddibynnol. Canolbwyntiwyd ar warchod rhywogaethau a chynefinoedd prin a diddorol, a bu i bwysau unigol yn y meysydd hyn dderbyn ymateb ar wahân a heb fod yn gydlynol. Nid yw'r ffordd hon o reoli a diogelu'r amgylchedd wedi cyrraedd targedau 2010, ac ni chafodd ond cefnogaeth gyfyngedig gan garfannau â diddordeb y mae eu gweithgarwch yn effeithio ar natur. Yn cyd-fynd â'r agwedd dameidiog hon tuag at gadwraeth natur, ceir diffyg cydnabyddiaeth o werth cymdeithasol y systemau naturiol a ddarperir gan y tir a'r môr, gan ei gwneud yn anodd adnabod a gwobrwyo'r rhai sy'n rheoli'r tir a'r môr yn gadarnhaol.

Mae'r UKBAP, BARS a'r LRC i gyd wedi cyfrannu at gynnydd y DU a Chymru tuag at y gostyngiad sylweddol o ran colli bioamrywiaeth y galwyd amdano gan y Confensiwn ar Fioamrywiaeth. Fodd bynnag, er gwaethaf argaeledd seilwaith cynllunio a chofnodi mor gynhwysfawr, nid yw'r DU na phob gwlad arall a lofnododd y Confensiwn wedi cyflawni'r targedau bioamrywiaeth. Yn unol â'i swyddogaeth arweiniol, mae'r WBP eisoes wedi adolygu'r rhesymau a arweiniodd yn ei farn ef at fethu â chyrraedd y targedau yng Nghymru. Nodwyd y tri phrif fater a nodir isod:

mae prosiectau mawr (heb unrhyw gysylltiad â bioamrywiaeth yn ôl pob golwg) wedi methu ag ymgorffori enillion bioamrywiaeth neu ecosystem, neu wedi achosi niwed yn anfwriadol i fioamrywiaeth neu ecosystemau. ,

mae camau bychain (fel rhoi concrid dros erddi a lleihau'r lefel trwythiad), na fyddent wedi bod yn broblem ynddynt eu hunain, wedi cyfuno i achosi effaith niweidiol.

mae'r llywodraeth a'r sector cadwraeth wedi methu â llwyr ddeall a/neu wedi methu â chyfathrebu'n effeithiol ynghylch gwir werth a phwysigrwydd natur.

Mewn geiriau eraill, y prif reswm dros fethu â chwrdd â thargedau yw hyn – nid annigonolrwydd camau cadwraeth eu hunain ond diffyg ymgorffori camau o'r fath ym mhopeth arall a wneir gennym.

Gellir dadlau bod y rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig yng Nghymru hefyd yn creu trafferthion o ran atal colli bioamrywiaeth. Mae ardaloedd dynodedig yn creu agwedd tuag at gadwraeth natur sy'n statig yn ei hanfod, ac yn groes i'r amgylchedd cynyddol ddeinamig, a hynny, yn rhannol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o fioamrywiaeth yn bodoli y tu allan i'r safleoedd hyn, ac felly yr ydym yn colli'r pwysigrwydd o edrych ar ecosystemau ehangach.

Bydd safleoedd gwarchodedig, systemau caniatáu a chynnwys y cyhoedd yn parhau i fod â rôl ganolog o ran cadwraeth bioamrywiaeth a gweithgareddau gwella, ond bydd angen ailfeddwl y ffordd y defnyddir hwynt. Bydd adolygu trefniadau cyfredol yn galluogi dylunio systemau mwy ystwyth, a fydd yn uchafu'r budd i natur gan leihau'r baich biwrocrataidd i'r eithaf.

Mae tangyflawniad blaenorol a chynnydd mewn pwysau yn y dyfodol yn gwneud achos grymus dros welliant. Er mwyn cael y canlyniadau gorau yn amgylcheddol ac yn economaidd, rhaid i Gymru ailfeddwl yn sylfaenol y modd y mae'n rheoli ac yn gwarchod ei hamgylchedd byw. Ymddengys bod dull gweithredu yn seiliedig ar ecosystem, yn ymgorffori rheoli tir, dwr ac adnoddau byw yn gynaliadwy, yn ffordd realistig ymlaen. Mae'r dull gweithredu hwn yn cael ei gynnwys yn natblygiad "Cymru Fyw".

Cyhoeddwyd" Cymru Fyw, "yr ymgynghoriad ar egwyddorion a dulliau gweithredu yng nghyswllt Fframwaith Amgylcheddol Naturiol ar 15 Medi. Mae'n ceisio contract newydd rhwng rheolwyr amgylcheddol a rheoleiddwyr, diwydiant, masnach a'r cyhoedd. Mae angen i bob sector, pob grwp oedran a phob cymuned osod cadwraeth ein 'system cynnal bywyd' yn brif flaenoriaeth iddynt. Drwy wneud hyn, gall Cymru adlewyrchu'i chysylltiadau hanesyddol a diwylliannol dwfn â'r amgylchedd naturiol. Gellid canfod dull gweithredu sy'n unigryw Gymreig, yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau a'r syniadau diweddaraf o bedwar ban byd. Gallai Cymru fod y wlad gyntaf erioed i roi'r dull newydd hwn ar waith.

### A yw'r agwedd bresennol tuag at ymdrin â lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu yng Nghymru wedi integreiddio'n ddigonol â pholisïau ar gyfer bioamrywiaeth?

Hyd yn oed cyn ystyried effeithiau ychwanegol newid yn yr hinsawdd, mae bioamrywiaeth yn wynebu ystod gymhleth o sialensiau. Y mae effaith newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd naturiol yn debygol o fod yn sylweddol gan fod cynefinoedd yn newid mewn ymateb i amrywiadau mewn tymheredd a daw rhywogaethau dan fygythiad a chael eu gorfodi i symud. Efallai na fydd yn bosibl cynorthwyo pob rhywogaeth a chynefin bregus drwy addasu, ond bydd datblygu gwydnwch yn yr amgylchedd ehangach yn bwysig o ran manteisio i'r eithaf ar y potensial hwnnw ar gyfer addasu.

Un o'r prif fygythiadau i fioamrywiaeth a safleoedd cadwraeth yng Nghymru yw newid yn yr hinsawdd. Mae llawer o'r pethau sylfaenol sy'n achosi newid yn yr hinsawdd hefyd wrth wraidd colli bioamrywiaeth. Mae adnodd bioamrywiaeth iach yn chwarae rhan allweddol o ran ymdopi â newid yn yr hinsawdd. Bydd effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cael mwy o effaith mewn ardaloedd lle y mae bioamrywiaeth eisoes dan bwysau. Mae gan ecosystemau iach fwy o botensial i addasu i newid yn yr hinsawdd ac y maent yn sicrhau darpariaeth barhaus o wasanaethau ecosystemau megis peillio cnydau. Bydd bioamrywiaeth angen cymorth i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd, ond, yn hanfodol, y mae hefyd yn arf sylweddol yn y frwydr i gyfyngu ar effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae Strategaeth Amgylcheddol Cymru'n integreiddio ein hagwedd tuag at golli bioamrywiaeth drwy weithredu Dyletswydd Bioamrywiaeth NERC. Gofynnir i bawb sy'n cyfrannu i'r strategaeth adrodd ar gyflwyno'r ddyletswydd ac y mae ystod eang o adrannau'r llywodraeth wedi dechrau gwella gwarchod bioamrywiaeth yn eu meysydd polisi. Cynhwysir enghreifftiau o weithredu o'r fath gan y llywodraeth yn y Datganiad Cabinet sydd ynghlwm.

Mae gan Grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol swyddogaeth bwysig o ran rhoi'r Strategaeth Amgylcheddol a'i Chynlluniau Gweithredu ar waith. Y maent yn trosi'r Strategaeth Amgylcheddol yn flaenoriaethau penodol ar gyfer pob ardal yn y Cynllun Gofodol, gan nodi sut y cyflwynir hwynt a monitro cynnydd. Mae datblygu'r cysyniad o ranbarth amgylcheddol ar rwydwaith yn Ne Ddwyrain Cymru'n dangos hyn. Y bwriad yw gwella a chysylltu seilwaith amgylcheddol y ddinas-ranbarth fel sylfaen ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac economaidd.

'Coetiroedd i Gymru' yw strategaeth ddiwygiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd yn 2009. Un o'i phrif themâu strategol yw ymateb i newid yn yr hinsawdd. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd addasu i newid yn yr hinsawdd drwy gynyddu dygnwch coetiroedd yn wyneb effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn amlinellu manteision defnyddio coetiroedd i

gynorthwyo gyda rheoli'r risg o lifogydd a'u manteision i fioamrywiaeth mewn ardaloedd trefol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gyfrannu tuag at sefydlu rhwydwaith o Ardaloedd Gwarchodedig ar y Môr yn y DU sy'n ecolegol gydlynus ac a reolir yn dda. Bydd y rhwydwaith hwn yn cynnwys safleoedd morol Ewropeaidd – Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Pharthau Cadwraeth Forol, y gellir eu dynodi gan ddefnyddio'r pwerau newydd dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Y nod yw bod y rhwydwaith o Ardaloedd Gwarchodedig ar y Môr yn cynnal a gwella bioamrywiaeth ac yn cyfrannu tuag at adferiad a gwydnwch ecosystemau.

Gweithgaredd hanfodol arall i Lywodraeth Cynulliad Cymru yw datblygu sail dystiolaeth i gefnogi integreiddio mesurau lliniaru newid yn yr hinsawdd. Ar y cyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyd-ariannu'r prosiect MONARCH, sy'n astudio effeithiau newid yn yr hinsawdd ar fioamrywiaeth. O ganlyniad i'r ymchwil hon mae CCGC yn bwriadu cyflwyno rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau sydd fwyaf agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â nifer o gynigion i'w cefnogi.

Mewn cydweithrediad â CCGC, Asiantaeth yr Amgylchedd (AA) Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth, mae mapiau a data ar wasanaethau ecosystem yn cael eu dwyn ynghyd fel rhan o'r gwaith ar y Fframwaith newydd. Bydd hyn yn darparu adnodd pwysig ar gyfer cynllunio a datblygu prosiectau. Mae CCGC, AA Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol hefyd yn gweithio ar gofrestr risg o rywogaethau ymledol. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon gan Adrannau'r Cynulliad ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu iechyd planhigion ac anifeiliaid, yn ogystal â gwarchod bioamrywiaeth gynhenid.

Cyhoeddwyd **Strategaeth Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd** ym mis Hydref 2010. Mae'r strategaeth yn integreiddio ein dull gweithredu o ran mynd i'r afael â pha mor agored ydym i newid yn yr hinsawdd gan ddefnyddio bioamrywiaeth drwy'r Cynllun Addasu'r Strategaeth ar Newid yn yr Hinsawdd a fydd yn gwneud y canlynol:

Parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar fioamrywiaeth a gweithio i fynd i'r afael â hwy,

Sicrhau bod cynllunio gofodol morol, ei weithredu a'i fonitro'n ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ecosystemau a rhywogaethau morol ac arfordirol,

Cefnogi ac annog rheolwyr tir i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Gwella dygnwch coetiroedd yn wyneb newid yn yr hinsawdd.

**Datblygu Cynaliadwy** yw egwyddor drefniadol ganolog Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn golygu y byddwn yn:

Hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor drwy:

Leihau'r defnydd o adnoddau yn unol â'n dyhead am ôl troed ecolegol llai; a

Hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb cyfle

Bydd gweithredu ar fioamrywiaeth yn seiliedig ar yr agwedd hon, sydd â thair elfen allweddol iddi:

**Atebion hirdymor:** sicrhau bod pob penderfyniad yn hyrwyddo'r tymor hir, lles cynaliadwy pobl a chymunedau, ac nad ydynt yn hyrwyddo atebion tymor byr a fydd yn parhau i'n cadw'n gaeth i batrymau a ffyrdd o fyw anghynaliadwy;

**Integreiddio:** sicrhau bod pob penderfyniad yn rhoi ystyriaeth lawn, a lle bo'n bosibl yn llwyr integreiddio'r gwahanol ganlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a geisir; a

**Chyfranogaeth:** ymgysylltu â, a chynnwys, y bobl a'r cymunedau yr effeithir arnynt gan y penderfyniadau hyn, fel y daw gweithio mewn partneriaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'r ffordd yr ydym yn gweithio.

Mae'r holl brosiectau uchod ac enghreifftiau o weithio ar y cyd yn cael eu hymgorffori yn y Fframwaith Amgylchedd Naturiol. Mae ei ddatblygiad yn adlewyrchu'r her a achosir gan newid yn yr hinsawdd i agwedd tuag at warchod yr amgylchedd sy'n statig yn ei hanfod. Mae'n cydnabod bod yr amodau sy'n cynnal ecosystemau presennol, yn newid a bod symudiad sylweddol o fywyd morol tua'r gogledd eisoes i'w weld, wrth i'r moroedd gynhesu'n raddol. Mae'n cydnabod ei bod yn debygol, ar y tir, y bydd ardaloedd ymylol yn methu â chynnal eu rhywogaethau a'u cynefinoedd presennol. Mae'r fframwaith hefyd yn derbyn y bydd newid yn yr hinsawdd yn dwyn sylw amlwg at gostau llifogydd, cyflenwadau dwr, tanau gwyllt a diogelwch bwyd – ac y mae pob un o'r rhain yn ddibynnol ar iechyd, gwydnwch a rheolaeth effeithiol ein hecosystemau.

## Pa enghreifftiau o arfer da sy'n bodoli mewn mannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol y gall Cymru ddysgu oddi wrthynt?

Yn nhermau cynefinoedd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi derbyn y gyfres o safleoedd Natura yn Sweden, sydd wedi'u hailwampio'n llwyr, fel safleoedd sy'n arwain y ffordd o ran caniatáu dynodi safleoedd a systemau safleoedd sydd wedi'u haddasu ar draws Ewrop. Bydd y dull gweithredu hwn a thystiolaeth o wledydd eraill yn cael eu hasesu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol.

Yn ogystal â Rhwydwaith Natura 2000, mae ffynonellau ysbrydoliaeth ac arfer da eraill ar gael megis rhaglenni INTERREG a LIFE+ yr UE. Bydd tystiolaeth o waith llwyddiannus dan y rhaglenni hyn ac adborth o'r ymchwiliad hwn yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y Fframwaith Amgylchedd Naturiol.

Heb amheuaeth, y mae Cymru ar y blaen i wledydd eraill wrth ddatblygu "Cymru Fyw, "ond y mae llawer iawn i ni ei ddysgu o hyd gan wledydd a rhanbarthau eraill. Ar lefel rhywogaethau, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n awyddus i archwilio'r profiad o reoli llwyddiannus a'r dymuniad cyffredinol i ailgyflwyno neu ddenu rhywogaethau sydd wedi marw allan yn lleol. Er enghraifft, ers i'r afanc gael ei ailgyflwyno o Norwy i Sweden yn 1922, mae cynlluniau ailgyflwyno ac ymlediad naturiol wedi golygu bod afancod wedi ailsefydlu yn 24 o'r 29 Gwladwriaeth Ewropeaidd o fewn ystod eu tiriogaeth flaenorol. Prydain, Portiwgal, yr Eidal a gwledydd deheuol y Balcan yw'r unig wledydd nad ydynt wedi ailsefydlu poblogaethau gwyllt er bod ailgyflwyno naturiol yn mynd rhagddo yn yr Alban, ac mae un dan ystyriaeth yn Lloegr.

### Beth yw goblygiadau targedau sy'n datblygu ar gyfer 2020 a thu hwnt?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod bod angen dull newydd o weithredu os yw Cymru am gyflawni targedau bioamrywiaeth i'r dyfodol. Mae'r rhain yn ymestyn o ofynion Strategaeth Amgylcheddol Cymru i ganlyniadau Cynhadledd Nagoya ac ymrwymiad Gweinidogion yr Amgylchedd yr UE i'r targed newydd canlynol ar gyfer 2020:

""i atal colli bioamrywiaeth ac atal dirywiad gwasanaethau ecosystem yn yr UE erbyn 2020, a'u hadfer, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, wrth gynyddu cyfraniad yr UE at osgoi colledion bioamrywiaeth byd-eang.""

Bu i Weinidogion Amgylchedd yr UE hefyd fabwysiadu gweledigaeth hirdymor newydd, sef:

""Erbyn 2050 bod bioamrywiaeth yr UE a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu – ei gyfalaf naturiol – wedi'u hamddiffyn, eu gwerthfawrogi a'u hadfer yn briodol er mwyn gwerth cynhenid bioamrywiaeth, ac am eu cyfraniad at les a ffyniant economaidd dynol ryw, fel y gellir osgoi newidiadau trychinebus a achosir gan golledion bioamrywiaeth.""

Mae hwyluso cyflawni'n llwyddiannus yn erbyn yr ystod hon o dargedau bioamrywiaeth yn rhan allweddol o ddatblygiad y Fframwaith Amgylchedd Naturiol newydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo yng nghyd-destun y canlyniadau a'r targedau manteisiol hyn ac ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy yn ei ystyr ehangaf. Lansiwyd yr ymarfer ymgynghori "Cymru Fyw "yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Ionawr ynghylch datblygu'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol i Gymru. Mae'r ymgynghoriad yn cydnabod bod y gofynion ar yr amgylchedd yn cynyddu oherwydd ffactorau megis newid yn yr hinsawdd a gweithgarwch dynol. Mae'n derbyn y bu cynnydd cadarnhaol mewn rhai meysydd amgylcheddol, ond bod iechyd cyffredinol systemau amgylcheddol yn parhau, fe ymddengys, i fod yn fregus a bod llawer iawn o waith i'w wneud o hyd.

Mae" Cymru Fyw "yn nodi'r egwyddorion y mae Cymru'n bwriadu gweithredu'n unol â hwy i newid ei hagwedd tuag at reolaeth amgylcheddol i sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i fod yn iach ac yn wydn. Dyma'r cam cyntaf hefyd o ran mynd i'r afael â phaham y bu i ni fethu â chyrraedd ein nodau o ran bioamrywiaeth, a sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth y sefyllfa bresennol. Mae'r ymgynghoriad yn egluro sut y bwriadwn wneud y gorau o effeithiau cadarnhaol ar gyfer yr amgylchedd, yr economi, y gymdeithas a lles a deall a siapio'r pethau fydd yn gyrru newid i'r dyfodol.

Yn y pen draw, bydd llwyddiant unrhyw ddull newydd megis" Cymru Fyw" yn dibynnu ar ganfod cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer y rhai sy'n rheoli ein tiroedd a'n dyfroedd, fel y gallant elwa ar yr holl fanteision y gellir eu gwireddu yn nhermau bwyd, datblygu, ynni ac iechyd sylfaenol yr ecosystem. Bydd manteisio ar werth yr amgylchedd i gymdeithas a gwobrwyo'r rhai hynny sy'n ei reoli'n gadarnhaol yn ddangosydd allweddol o lwyddiant a bydd yn arwydd bod y cydbwysedd priodol wedi'i daro.

Yng ngoleuni'r materion hyn bydd "Cymru Fyw "yn dechrau ar y broses o adolygu pa mor briodol yw ein hymyrraeth, gan ystyried ymhle y mae'r risgiau mwyaf a'r cyfleoedd gorau, a rheoli ar gyfer canlyniadau hirdymor yn hytrach nag effeithiau mwy cyfyngedig. Mae fersiwn cyfredol y ddogfen ymgynghori ar gael ar y ddolen ganlynol:
http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/eshlivingwalescons/?skip=1&lang=cy.

Fe'i hategir ar-lein gan amrywiaeth o ddeunydd cefndirol arall – gan gynnwys y ddogfen naratif, dogfen ddiffiniadau a detholiad o astudiaethau achos.

**Jane Davidson AC, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**